


ADOLYGIADAU

CAPELI CYMRU

gan Huw Owen,
Gwasg Y Lolfa, 216tud pris £14.95

Yn ei gyflwyniad i'r gyfrol hon mae'r awdur yn cyfeirio at farn un hanesydd sydd yn argyhoeddedig 'fod Cymreictod, am tua chan mlynedd yn y cyfnod modern diweddar, yn gyfystyr â bywyd capel, a honnodd dau bensaer mai capeli yn fwy na dim byd arall a fu'n gyfrifol am roddi i drefi Cymru eu cymeriad cenedlaethol nodweddiadol. Mae llawer o'r capeli eu hunain yn sefyll lawer iawn yn uwch na nifer o'r adeiladau eraill sydd o'u hamgylch ym mhentrefi a threfi Cymru, ac mae hyn yn arwydd gweledol o rym a dylanwad Anghydffuriaeth'.

Mae'r capeli yn rhan eithriadol bwysig o'n treftadaeth, sy'n cael ei ddiystyru gan y wasg, yn aml iawn, fel ystrydeb sy'n rhan o'r gorffennol, ond ceir tystiolaeth yn y gyfrol fod yna frwdfrydedd arbennig mewn llawer iawn o'n capeli a llwyddiant i addasu i'r oes fodern.



Yn y gyfrol rhoddir sylw i 111 o gapeli Cymraeg, yn cynnwys nifer o'r rhai enwocaf, fel capel Evan Roberts ym Mlaenanerch, capel Soar y Mynydd a chapel Gwynfid, Llangeitho. Ceir braslun o hanes pob capel, y gweinidogion a manylion am yr aelodaeth bresennol gan gofnodi sut oedd sefyllfa'r capeli ar 1 Ionawr 2004.

Cefais i flas ar hanes a ffeithiau diddorol y gwahanol gapeli. Mae Eglwys Gymraeg Aber-Carn heddiw yn deillio o'i hanes cynnar a'r cysylltiad â theulu Llanofar (Gwenynen Gwent). Cyflwynwyd yr addoldy, a godwyd yn Aber-carn yn 1853, i'r Eglwys yng Nghymru ar yr amod y byddai'r holl wasanaethau yn yr iaith Gymraeg. Ni chadwyd at yr amod hon, felly, y canlyniad fu i deulu Llanofar wahodd gweinidog amlwg gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, sef y Parch. David Charles, ŵyr i'r Parch Thomas Charles o'r Bala, i fod yn weinidog yno. Mae'r Eglwys yn dal i gynnal oedfaon Cymraeg er mai dim ond 3 aelod sydd yno gyda 12 plentyn a 6 oedolyn yn mynychu'r ysgol Sul.

Yn Aberystwyth mae capel y Morfa yn dangos llwyddiant i addasu - wedi uno capeli mae gan y capel ar hyn o bryd 459 o aelodau, ac eleni hefyd sefydlwyd canolfan ffydd a diwylliant newydd yno, sef Y Morlan.

Gwelir yng Nghaerdydd ffyniant rhyfeddol i sawl capel, yn cynnwys capel Salem yn Nhhreganna sy'n llywddo i gynyddu aelodau o

flwyddyn i flwyddyn.

Wyddoch chi pa eglwys sydd â'r nifer mwyaf o aelodau? Wel Capel Seilo Caernarfon, o dan ofal y Gweinidog Gwenda Richards, hefo 729 o aelodau, 80 o blant yn yr Ysgol Sul a 12 athro.

Cawn olwg hefyd ar sefyllfa'r Eglwys Cymraeg eraill dros y byd, megis ym Melbourne, Eglwys Bethel Y Gaiman a Lerpwl.

Heb os, er y dirwydiad, mae yna fywyd a gweithgaredd anhygoel yn digwydd dros Gymru. Agorwyd fy llygaid i, beth bynnag, a dwi'n sier y cewch chithau fodd i fyw o'i darllen ac mae'n werth ei chael wrth eich penelin. Prynwch hi.

Daw'r awdur, Huw Owen, o Cross Hands ond mae bellach yn byw yn Aberystwyth. Bu'n geidwad Darluniau a Mapiâu, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ond bellach mae wedi ymddeol ac yn weithgar gyda'r gymdeithas Capel.

Plentyndod ym Môn AR LAN Y MÔR

gan
Michael Williams, Gwasg Carreg Gwalch
108 tud. Pris £4.50

Hunangofiant Michael Williams yw'r gyfrol, sef hanes ei fagwriaeth gyda'i daid a'i nain ar lan y môr ym Môn, a chawn gipolwg ar fywyd gwledig cyn, ac yn ystod, yr Ail Ryfel Byd yma, wedi'i adrodd yn onest a difyr mewn Cymraeg cyhyrog. Cyfeiria sut y daeth dau fachgen cadw atynt yn ystod y rhyfel a rheini'n 'ddu fel blacin; llygaid mawr gwynion a dannedd, os rhywbeth, yn wynnach fyth.' Dyma'r tro cyntaf iddo erioed weld plant duon a chawn eu hynt a'u helynt. Ceir darlun o'i allu i droi ei law, yn fedrus a dyfeisgar, at lawer crefft.

Daeth yr elfen ddyfeisgar hon i'r amlwg yn gynnar iawn pan oedd yn hogyn yn Aberffraw. Cawn yn y gyfrol ei hanes yn gwneud cwch â darnau o sinc, er enghraifft, a model o injan stem efo broc môr a rhaff, a hen feic. Cefais y gyfrol yn un difyr iawn ac yn hawdd i'w darllen ac mae'n sier yn werth ei phrynu. Mae'r awdur yn byw ym Mhencaenewydd, Eifionydd ers 37 mlynedd bellach, ond mae'n amlwg mai yn y 'Berffro' mae ei galon o hyd.

Plentyndod ym Mhenfro - TRA'D YN TIR

gan
Stan Jones, Gwasg Carreg Gwalch
94 tud. Pris £4.50

Hanes plentyn yn mwyhau'r rhyddid o fyw ar fferm yn Dinas, Sir Benfro sydd yn y gyfrol hon. Cawn flas ar iaith unigryw Sir Benfro ac mae brasluniau pen ac inc yr awdur ei hun yn cyfrannu at y disgrifiadau.


Yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf, roedd plant ffermydd yn rhan o'r gweithlu; mae darlun Stan Jones yn dangos cymaint y mae bywyd, a plentyndod yn arbennig, wedi newid yn y cyfamser. Ond plant yw plant ym mhob oes a gwlad, ac roedd neilltuo amser i chwarae yr un mor bwysig y pryd hwnnw ag ydyw heddiw. Yr un hefyd oedd yr awydd i wrthryfela ar adegau.

Cafodd yr awdur ei eni ar fferm Wern dew yng nghymdogaeth Dinas, Sir Benfro. Trwyddedwyd ef yn athro Celf a bod yn artist yw ei ddi-ddordeb pennaf, a byd natur yn ei amrywiol weddau, yw prif ffrwd ei ysbrydoliaeth, ffrwd a darddodd ar dir Wern dew ei febyd.

The Stable of Eddie Thomas CLASS OF THE 60s

gan
Wynford Jones, Colourplan Design & Print
134 tud. Pris £12.50

Ar 28 Chwefror 2003 daeth aelodau o stabal Baffio Eddie Thomas o'r 60au at ei gilydd yng Ngwesty Bessemer, Dowlais, am aduniad hir ddisgwyliedig. Trefnwyd y noson gan Don



James, ysgrifennydd Cymdeithas Cyn-baffwyr Cymreig. Bu'r noson yn un hynod llwyddiannus gyda chyn baffwyr enwog megis Steve Robinson, cyn Bencampwr Pwysau Plu y Byd, Robbie Regan Cyn bencampwr pwysau Bantam y Byd, Eddie Avoth Pencampwr Pwysau Trwmysgafn Prydain a'r Gymanwlad, a llu o rai eraill yno.

Felly, cyfrol yw hon sy'n rhoi cefndir a chydabyddiaeth dyledus i'r holl baffwyr a fu'n hyfforddi ym Merthyr o dan ddwylo medrus Eddie Thomas yn ystod chwedgau'r ganrif ddiwethaf. Mae'r awdur wedi rhoi gyrfa a record oddeutu ugain o baffwyr gan gychwyn hefo'r maestro ei hun - Eddie Thomas. Gan fod yr awdur mor adnabyddus yn y maes, cawn ei sylwadau personol yntau drwy'r gyfrol. Rhaid cofio fod yr holl baffwyr yn cynrychioli eu gwlad - Cymru - ac yn aml yn gwaedu drosti, ac mae'n bryd eu mawrygu.

Mwynheais y gyfrol yn fawr a chefais hanes nifer nad oeddwn yn gwybod llawer amdanynt. Os ydych chi â diddordeb mewn paffwyr o Gymry, dyma'r gyfrol i chi. Ceir ynddi fam personol yr awdur o lwyddiannau Eddie Thomas a'i stabal o baffwyr mewn degawd hynod i Baffio Cymreig ac hefyd i Ferthyr Tudfil yn arbennig.

Ganwyd Wynford Jones ym Merthyr ond bellach mae yn byw yn Aberdâr, ac mae ef wedi bod yn ddyfamwr i Fwrdd Rheoli Paffio ers 1977. Gellir clywed ei lais yn aml ar y cyfryngau ac mae wedi ysgrifennu sawl erthygl ar y grefft.